# Recorders' Newsletter

**Cylchlythyr y Cofnodwyr 29 (Gaeaf 2012/13)**

Mae llawer o sôn y dyddiau hyn ymhlith arbenigwyr bioamrywiaeth am **wasanaethau ecosystem**: Mae'r cysyniad hwn yn cwmpasu'r cyfraniadau y gall rhywogaethau, cynefinoedd, tirweddau, a thirluniau eu gwneud i'r economi ac i iechyd dynol, a'r gwerth y dylid ei briodoli iddynt. Braidd yn niwlog yw'r cysyniad ar hyn o bryd. Rwyf i'n ddigon hen ffasiwn i goelio fod gan fyd Natur ryw bwysigrwydd gwyddonol ac emosiynol cynhenid, sy'n meddu ar ddigon o werth ynddo'i hun. Ond, mae'n debyg, rhaid i rywun symud gyda'r amser. Dyna pam fod rhaid dechrau meddwl o ddifrif am y gwasanaethau ecosystem a ddarperir gan ein bioamrywiaeth.

A dechrau yn y dechreuad, felly: bydd bryniau ein hucheldir ni yn derbyn glawiad sylweddol. Mae'r planhigfeydd coedwigaeth wedi darnio'r gorgorsydd, a chafodd y rhosydd eu troi'n glaswelltir. Bydd y dŵr glaw yn ffrydio i ffosydd y coedwigoedd ac ar draws y porfeydd sy'n cael eu pori'n fyr, ac yn ymarllwys i lawr nentydd llechweddau'r cymoedd i'r afonydd islaw. Mae'r afonydd yn codi, a dyna'r tir isel yn mynd yn wlyb - yn ofnadwy o wlyb, ar adegau. Ni ŵyr neb beth fydd effaith cynhesu Byd-eang ar ein tywydd mewn gwirionedd. Ymddengys serch hynny fod y dystiolaeth gynnar yn awgrymu y cawn ni fwy o ddigwyddiadau tywydd eithafol. Digon rhesymol, felly, yw rhagfynegi mwy o lifogydd. Beth yw’r cam nesaf i ni? Ateb posibl o ran gwasanaethau ecosystem fyddai adfer y corsydd a rhosydd ucheldir, a gadael i'r cronfeydd naturiol hyn weithredu fel sbyngau ucheldir anferthol. Gallent ddal y glawiad, a'i ryddhau fesul tipyn dros gyfnod hwy o amser. Gwanhau naturiol yw'r enw ar hyn. A fydd hyn yn gweithio? Cafodd cynlluniau adfer mawnogydd eu gwneud yn orfodol yn gyfrwng lliniaru ar gyfer effeithiau ecolegol rhai o gynlluniau ffermydd gwynt yr ucheldiroedd. Os yw hyn yn llwyddo, fe ddechreuwn ni adfer rhai o'r gorgorsydd a gafodd eu hesgeuluso a'u cam-drin cyhyd. Newyddion da felly i bawb sy'n cymryd diléit mewn migwyn, mwsogl y gors, plu'r gweunydd, grug croesddail, a gwlithlysiau, felly! Ond, yn fwy na hynny, os gallwn ni ddangos fod adfer y corsydd hyn yn lleihau'r llifogydd, ac yn cadw'r rhaeadrau o ddŵr brwnt allan o'n hystafelloedd ffrynt, byddwn ni'n llwyddo i ddarparu a rhoi gwasanaethau ecosystem hefyd. Yn sicr ddigon mae gwanhau naturiol yn ffordd lawer ratach -

ac yn fwy cynaliadwy - o ddarparu amddiffyniad rhag llifogydd na rhyw waith peirianneg trwm. Mae'n bosibl y bydd y dull ac agwedd gwasanaethau ecosystemau yn fodd i eraill sylweddoli y dylid adfer ein corsydd ucheldirol fel rhan o strategaeth amddiffyn rhag llifogydd ar raddfa’r dirwedd gyfan. Gwn y byddwn ni i gyd wrth ein bodd yn clywed sŵn gweryru'r gïach, yn gweld y picellwr du yn gwibio heibio, ac yn gwylio pennau blodeuog plu'r gweunydd yn dawnsio yn y gwynt.

Byddai modd llunio dadl debyg ar sail cyfri'r ceiniogau o blaid trefn reoli sensitif ar lechweddau ein Cymoedd, a'r porfeydd ffridd a rhos a gynhelir ganddynt. Bendith yn ddiau i Gymoedd y De yw'u bod yn cwmpasu tirweddau a thirluniau bendigedig, ac yn cynnwys bioamrywiaeth mor wych. Ond, gwaetha'r modd, gwyddom i gyd mor gyffredin yw tanau ar lechweddau a gwelltiroedd Rhondda Cynon Taf yn gynnar yn y Gwanwyn. Mae'r rhain yn gosod pobl ac eiddo mewn perygl sylweddol, yn dodi baich anferth ar y Gwasanaeth Tân, yn dinoethi'r dirwedd, yn dinistrio'r bywyd gwyllt ar raddfa helaeth, ac yn difrodi cynefinoedd. Mae tanau glaswellt yn taro'r pwrs cyhoeddus yn galed.

Er eu galw'n danau glaswellt, llechweddau rhedynog, a glaswelltir corsiog glaswellt y gweunydd sy'n dioddef yn bennaf yn eu sgîl. Mae'r cynefinoedd hyn yn gartref i rywogaethau prin, ac i rai sy'n dirywio hefyd. Ymhlith y rhain ceir britheg frown a britheg y gors, adar megis clochdariaid y cerrig a chrecod yr eithin, a miloedd o nadredd defaid a madfallod. Fe ddaw'r problemau yn sgîl peidio â rheoli'r cynefinoedd hyn. Bydd haen drwchus o lystyfiant marw yn cronni. Pan aiff honno yn sych, bydd yn agored i dân tua diwedd y gaeaf a dechrau'r gwanwyn.

Cynefinoedd o werth uchel i fioamrywiaeth yw llethrau rhedynog a gwelltiroedd corsiog, ond rhaid eu rheoli mewn ffordd briodol ac addas er mwyn gwireddu'u potensial llawn. Bydd y drefn reoli yn dibynnu ar ddulliau pori traddodiadol, gyda gwartheg a merlod. Pan fydd yr amgylchiadau yn addas, byddwn yn torri'r glaswellt hefyd. Mae bridiau gwartheg gwydn, a merlod mynydd, yn ddelfrydol ar gyfer pori'r cynefinoedd hyn. Gall hi fod yn arw iawn weithiau ar y bryniau agored, ond cafodd y bridiau traddodiadol eu creu i ffynnu yno, ac i fwydo ar welltiroedd garw'r Cymoedd. Maent yn ddigon mawr hefyd i ddarnio eangderau'r rhedyn, a thwmpathau glaswellt y gweunydd. Bydd y gwartheg a'r merlod yn cadw'r rhedyn ungoes a'r glaswelltau wedi gordyfu dan reolaeth. Drwy hyn maent yn caniatáu i lawer o wahanol blanhigion blodeuol dyfu, creu ystod o gyflyrau cynefin, ac atal tanau glaswellt rhag mynd o reolaeth a gwneud difrod mawr. Cynefinoedd pwysig yw'r rhain, sy'n dioddef tanau glaswellt bob blwyddyn. O ailsefydlu gwartheg a merlod yno fel anifeiliaid pori, byddai rhywun yn gwireddu datrysiad cynaliadwy i'r broblem hon, a lleihau yn sylweddol y costau a'r goblygiadau eraill: dyna wasanaeth ecosystem os bu un erioed. Dim ond dwy enghraifft sydd gyda ni yma, ond y mae eraill i'w cael hefyd. Mae lle cryf i dybio, felly, fod y dull ac agwedd gwasanaethau ecosystemau yn cynnig cyfle i'n bioamrywiaeth ni.

**Tywydd**
Dal i simsanu'n ôl ac ymlaen mae pendil yr hinsawdd.  Cofnododd Marcus Middlehurst lawiad cynyddol yr hydref yn Nhreherbert, yn enwedig uchafbwynt y dilyw ym mis Rhagfyr;

Medi   - Cyfanswm Glawiad 170mm.
Hydref - Cyfanswm Glawiad - 361.5mm; uchaf - 51mm ar yr 11eg
Tachwedd-  Cyfanswm Glawiad - 430.5mm; uchaf 60mm ar y 24ain, 54mm ar y 18fed, a 56mm ar y 20fed
Rhagfyr - Cyfanswm Glawiad  -700.5mm; uchaf 108mm ar y 22ain, 78mm ar y 19eg, 54mm ar y 28ain).

Dyma'r grynodeb fachog a anfonodd Mark Evans ataf ar gyfer 2012: 'Dyna ddiwedd ofnadwy i 2012! Erbyn tua chanol mis Rhagfyr, roeddwn i'n amau y byddem ni'n llwyddo o bosibl i gyrraedd 200mm o lawiad erbyn diwedd y mis. Glawiad eithaf cyfartalog y byddai hyn wedi bod, ond wedyn dyna'r tywydd yn mynd yn benwan.  Erbyn diwedd y mis, roedd y cyfanswm wedi cyrraedd 377. 50mm, sef y Rhagfyr trydydd wlypaf ers i mi ddechrau cadw cofnodion 19 mlynedd yn ôl.  2181. 20mm oedd y cyfanswm llawn ar gyfer 2012.  Dyna fy mhedwaredd wlypaf yn y pedair blynedd ar bymtheg honno'.
Mae Paul Marshman yntau wedi pwysleisio nifer o 'ddyddiau dilyw' eithriadol o wlyb.  Ymhlith y rhain roedd 44mm o law ar 14eg Rhagfyr,  gyda 44mm eto dros y 15fed a'r 16eg, a chwe modfedd o law mewn chwe diwrnod rhwng Ionawr 24ain a 29ain 2013.

A dyma gyfansymiau Marcus ar gyfer Treherbert dros y pedair blynedd ddiwethaf;
2009 - Cyfanswm Glawiad 2553.3 mm
2010- 2085.38 mm
2011-  2996 mm
2012-  3966.5mm

Ar i fyny mae'r duedd yn ffigurau Marcus, fe ymddengys, ac mae 2013 i'w gweld yn amlwg fel blwyddyn eithriadol o wlyb.  Tua'r adeg y daeth cofnodion Marcus i law, roeddwn i'n digwydd pori yn llyfr Daearyddiaeth Safon Uwch fy mab.  Dyma fi yn dod ar draws hanes Mynyddoedd Aberdare, yn ucheldiroedd Cenia.   Mae'r mynyddoedd is-alpaidd hyn yn enwog am eu dyddodiad helaeth - sydd, gyda llaw, yn hollbwysig a hanfodol i gyflenwad dŵr Nairobi.  O edrych ar y ffigyrau am lawiad, yno a'u cymharu â ffigurau Marcus ar gyfer glawiad Cwm-bach, mae Mynyddoedd Aberdare yng Nghenia i'w gweld yn wlypach na'r mynyddoedd ar bwys Aberdâr.  Serch hynny, nid oedd Ucheldiroedd Cenia i'w gweld hanner mor wlyb â Threherbert yn 2013, yn ôl ffigurau Marcus.   Mae'n debyg, felly, hyd y gwelaf i, fod Treherbert yn wlypach na Mynyddoedd Aberdâr i fyny'r heol,  ac yn wlypach na Mynyddoedd Aberdare yng Nghenia hefyd! Soniais i am hyn wrth Mark.  Esboniodd ef fod Mynyddoedd Aberdare yng Nghenia wedi'u henwi ar ôl

Henry Bruce, Barwn 1af Aberdâr. Roedd hyn yn codi rhyw awyddi fynd i weld y mynyddoedd hynny yn Affrica, gyda'u pennau glas ymhlith y cymylau. Byddai hyn yn costio ffortiwn, gwaetha'r modd, ond mae rhywun wastad yn gallu gwibio i fyny'r ffordd i weld mynyddoedd ein Haberdâr ni ymhlith ei thirweddau a thirluniau is-alpaidd.

Mae gaeaf caled eleni wedi aros yn hir, fel y gwyddom ni i gyd. Y tymheredd isafswm cyfartalog cymedrig yng ngardd Paul ar gyfer mis Mawrth oedd y deifiol 0. 4 gradd C. Yr uchafswm ar gyfartaledd ar y llaw arall, oedd 7. 6. Y ffigur cyfatebol ar gyfer Mawrth chwyslyd y llynedd oedd 15. 9 gradd. O gofio beth ddigwyddodd yr haf diwethaf, buaswn i yn fodlon trwcio mis Mawrth oer am fis Mai neu Fehefin weddol unrhyw ddiwrnod (neu flwyddyn, o ran hynny).

**Bioamrywiaeth yn Abernant**

Mae bioamrywiaeth pob rhan o Rondda Cynon Taf yn trysori'i thlysau arbennig. Dyna ogoniant Cymoedd y De: mae rhyw drysor wastad i'w gael o fewn pellter cerdded o'r tŷ. Mae'r ardal o gwmpas cartref Mark Evans yng Nghwm-bach yn llawn trysorau bioamrywiaeth. Dyma enghraifft o fis Hydref y llynedd; 'Cefais ddiwrnod i'r brenin ddydd Llun diwethaf, a mynd i fyny tua llechwedd gorsiog Blaen-nant uwchlaw Abernant, lle llwyddodd Martin Bevan i godi tylluan glustiog y gaeaf diweddaf. Dyma oedd y tro cyntaf i mi dreulio unrhyw amser yn archwilio'r safle. Fe greodd hi argraff ddofn arnaf (peth digon hawdd i'w wneud!) gydag ansawdd ei bioamrywiaeth. Mae'r rhan orau i'w chael lle mae'r llechwedd yn rhedeg yn esmwyth i lawr tua'r de-orllewin. Gan fod y llethr ychydig bach yn derasog, mae'i rhediad yn amrywio yma ac acw. Mae yma gymysgedd o laswelltir corsiog a brwyn, gyda chorsydd cysylltiol a llaciau. Mae'r corsydd yn fwy cyffredin ar rannau mwy gwastad y terasau.

Ni wn yn wir beth roeddwn wedi disgwyl ei ddarganfod yno, yn enwedig yr adeg hon o'r flwyddyn. Ond fe ddaru i mi sylwi ychydig gwahanol fathau o figwyn a mwsogl y gors, er na wyddwn i mo'u henwau. Pleser mawr, ond nad annisgwyl, oedd cael hyd i farchredyn y mynydd. Roedd yn troi'n felyn, ac yn marw yn ôl ar gyfer y gaeaf. Yn y mannau mwy corsiog yn llawn migwyn a mwsogl y gors, sylwais lawer o glychlys dail eiddew, a chlytiau o gycyllog lleiaf gyda hwy.

Drwy gydol yr amser y bûm yno, fe glywn i freision y cyrs yn galw o'r mannau sy'n llawn brigwellt garw a glaswellt y gweunydd. Er na welais mo'r adar ar y pryd, roeddwn i'n sicr eu bod yno, yn bwydo ar hadau wedi disgyn o'r glaswelltau a gweiriau hyn, ymysg eraill. Llwyddais i godi gïach cyffredin yno, ac o'r llethrau sychach uwchlaw'r fan deuai galwadau clochdariaid y cerrig a chorhedyddion y waun. Ehedai heidiau o gochion-dan-aden heibio o dro i dro.

Roedd y tywydd yn eithaf llwyd y diwrnod hwnnw. Dim syndod felly taw dau larfa oedd yr unig greaduriaid di-asgwrn cefn ac infertebratau a welais i. Lindys

gwyfyn y banadl oedd y cyntaf, gyda brithresi du a gwyn trawiadol yn rhedeg ar hyd ei gorff ac yn eistedd ar redynen. Hefyd roedd yno lindys mawr blewog gwyfyn y cadno, yn eistedd yn isel ymhlith y glaswelltau a gweiriau ar fan llai gwlyb rhwng dau o'r llaciau.

A minnau ar fy ffordd i lawr i Abernant unwaith eto, mi gyrhaeddais i safle a fydd wastad yn drysor hollol annisgwyl i mi. Rhodfa oedd hon, yn rhedeg drwy blanhigfa gymysg o goed llydanddail a chonwydd, ar fan lle mae gwastraff glo wedi'i dirlunio a'i dirweddu. Mae'r coed i gyd rhwng pump a saith metr o daldra, a'r rhodfa bum can metr yn eithaf llydan mewn mannau. Ceir digonedd o lystyfiant tenau ar hyd tua chanllath o'r rhodfa, ond fod y gweddill yn wlypach ac yn fwy trwchus, irlas, a thoreithiog ei lystyfiant. Dim ond argoel o'i bosibiliadau ar gyfer gloÿnnod a phryfed eraill a gefais, o weld y rhodfa yn yr hydref. Bydd yn arbennig o addas iddynt yn y darn ehangach, sychach, a mwy heulog, lle sylwais i ganrhi goch ac amrhydlwyd glas. Bydd raid i mi gael amser ar gyfer ymweld â'r rhodfa o dro i dro, yn nhywydd heulog yr haf nesaf. Drueni nad oedd modd mynd â'r car yno, er mwyn rhoi cynnig ar ddal ychydig wyfynod. Gwelais gwpwl bach o larfau gwyfynod, yn fach iawn ac, o debyg, yn larfau micro-wyfynod. Llwyddais i adnabod a nodi un creadur di-asgwrn cefn neu infertebrat yn unig, sef buwch goch gota harlecwin aeddfed. Roedd hon yn ddu sgleiniog, gyda dau smotyn mawr coch o siâp coma.

**Adar**

Collais gofnod gwirioneddol pwysig gan Stuart Jones yn y Cylchlythyr diwethaf. Roedd Stuart wedi gweld telor y coed yng nghoedydd Gelliwion yn ystod yr haf. Yn ôl Stuart, mae'r coedydd hyn yn gynefin gwych - ac, o bosibl, wedi'u cofrestru fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ond mae beiciau oddi-ar-y-ffordd yn gwneud difrod ofnadwy iddynt. Mae teloriaid y coed yn mynd yn brinnach drwy gydol yr amser yn Rhondda Cynon Taf. Yn sicr ddigon, mae'n dalcen caled i'r rhywogaeth allweddol hon. A dyma fi yn cofio nawr i mi glywed a gweld telor y coed, yng nghwmni Ray Edwards a Kevin Oates. Roedd yr aderyn yn canu o ffawydd ar y llwybr beicio rhwng Parc Gwledig Barry Sidings a Maesycoed, Pontypridd. Tybed a yw teloriaid y coed mor brin ag yr ofnwn i?

Erbyn 21ain Hydref, fe welodd Paul Marshman yn glir fod yr adar mudol wedi cychwyn ar eu teithiau. Roedd dwsin o wenoliaid yn ffoi tua'r de uwchben Llwynypia. Yn fuan ar eu hôl daeth cochion-dan-aden yn ffoi o rywle ymhellach tua'r gogledd - fyddai heb os yn oerach na Rhondda Cynon Taf erbyn i ddiwedd mis Hydref agosáu. I ddilyn fe gofnododd Paul gyffylogod yng Nghoed Glyncornel, pinc y mynydd yn ei ardd, socan eira, rhagor o gochion-dan-aden, a'r pum hwyaden ddanheddog, bob un erbyn diwedd mis Hydref. Roedd Mark Evans hefyd wedi gweld gwenoliaid yn hwyr yn y flwyddyn. "Draw yng Nghwm-bach ar Ddydd Mercher 24ain, gwelais haid fechan o ryw chwech o wenoliaid yn hedfan yn gyflym dros frigau'r coed. Roeddent yn brysio i lawr y Cwm ar ruthr gwyllt tua'r de cyn gynted ac mor fuan ag sy'n bosibl."

Roedd barcutiaid coch i'w gweld o dro i dro yn Llwynypia'r gaeaf hwn.  Gwelodd Paul chwech ohonynt ym mis Rhagfyr, ac ym mis Chwefror fe welodd Tony Swann un ger Coed Brynna.  Daeth adroddiad gan Lily Woolrich i law ym mis Mawrth am un ger pen Bryn Penrhys ryw ddeng niwrnod cyn hynny, am 15. 00. "Byddaf yn gwylio adar yn gyson, a gallaf ddweud na welais i un mor bell i lawr erioed.  Tua'r un adeg, a minnau yng nghwmni Phil Bristow, gwelais ddau farcud coch yn nofio yn nofio yn yr awyr uwchben Trewiliam.  Rywbryd ym mis Chwefror mi welais un arall ar y llechweddau uwchlaw Glofa'r Tŵr.

Roedd yng nghwmni nifer o gigfrain, a'r rhain yn mynd drwy'u patrymau hedfan twmblo drwy'r awyr er mwyn amddiffyn eu tiriogaeth. Daeth adroddiadau am nifer o drysorau i law o libart Paul Marshman yn gynnar yn y gaeaf.  Ymhlith y rhain roedd tingoch du ar do Ysbyty newydd Llwynypia yn gynnar ym mis Tachwedd. (Roedd Paul wedi gweld un dro'n ôl, ar do'r hen Ysbyty yno ar 5ed Tachwedd 1994.)  Gwelodd dri chynffon sidan o'i ffenestr ar Ragfyr 5ed.  Roedd chwe rhywogaeth o linosiaid yn ei ardd yn gynnar ym mis Ionawr.  Ymhlith y rhain roedd llinos bengoch, pinc y mynydd gwrywaidd, a choch y berllan.  Eisteddai hwn yn benisel ar y sied, wedi'i daro gan feirws adar y trichomanes.  Yn anaml y bydd clochdariaid y cerrig yn ymweld â gerddi, ond oherwydd y tywydd oer ar ôl y Nadolig fe welodd Paul yr adar gwrywaidd yn ymweld â'i ardd ddwywaith.  Fe welodd ef frain yn arddangos rhyw ymddygiadau bach swynol yn eira mis Ionawr, gan gynnwys brân dyddyn yn prancio yn yr eira.  Disgrifiodd Paul yr aderyn yn dringo'n araf i fyny'r trwch o eira ar do, ac agor ei adenydd ychydig cyn cyrraedd crib y to.  Fe'i gwelodd yn troi yno, ac yn rholio i lawr rhediad y to cyn ei dal ei hun wrth y gwter.  Fe wnaeth yr aderyn hwn nifer o weithiau, cyn gadael iddo'u hun lithro dros y gwter a thwmblo o'r golwg.  Rwy'n cofio gwylio 'Jackanory' flynyddoedd lawer yn ôl, a gwrando ar Bernard Cribbins yn darllen straeon am gigfran o'r enw Mortimer.  Rwy'n cofio mor hoff oedd Mortimer o brancio yn yr eira, rhwng dwyn bwyd o oergelloedd a gyrru tacsis.  Adar deallus yw brain, ac mae fforio ac arbrofi yn rhan annatod o'u hagwedd at fywyd.

Gwn y byddwn ni'n clywed hanesion digon erchyll o dro i dro - gweilch glas yn boddi piod mewn pyllau dŵr, er enghraifft.  Fodd bynnag, daeth disgrifiad erchyll, a llun mwy erchyll byth, i law gan Ben Williams ym mis Tachwedd. "Gwelais dau dinc y mynydd yn fy ngardd yr wythnos ddiwethaf," meddai, "ceiliog ac iâr.   Diflannodd y ceiliog ar ôl diwrnod neu ddau, ond aros gwnaeth yr iâr.  A minnau'n mynd adref un diwrnod, mi edrychais allan a gweld rhyw snichyn bach o wiwer yn ei bwyta hi.   Ni welais i mo'r wiwer yn dal yr aderyn, ond mae'n ddigon posibl fod yr iâr wedi hedfan i mewn drwy'r ffenestr a bod y wiwer wedi achub mantais.  Dyna ddiwedd trist i'r pinc, ar ôl iddi ddod mor bell. Nid oedd y wiwer wedi bwyta'r aderyn cyfan, ond cyn gynted ag y gollyngodd hi'r carcas, dyna bioden yn gwibio i lawr i fachu'r hyn oedd yn weddill.  Rwyf wedi atodi llun.  (Ben a dynnodd y llun hwn, yn dangos gwiwer eithaf bodlon yn gwledda ar weddillion pluog pinc y mynydd.  Roedd Ben wedi gweld breision y cyrs hefyd yn ei ardd tua'r adeg honno.

Ac wedyn yn ddiweddarach yn yr hydref hwnnw, a minnau ar Gomin Llantrisant yng nghwmni Sue Wistow, mi welais 20 o iachod ac un cyffylog. Gwelodd Kevin Oates dros 30 o iachod ym mhorfeydd rhos Caeau Cwm, a mwy na 30 yn ychwanegol ar gaeau glaswelltir corsiog yng Nghors Llanilltud Faerdref. Rhaid bod niferoedd mawr o iachod yn gaeafu ar ein safleoedd gwlypdir ond, gwaetha'r modd, ychydig sy'n bridio yno. A hithau'n dechrau tywyllu un hwyr yn y gaeaf, roeddwn i'n gyrru ar Ffordd Osgoi Pentre'r Eglwys ger yr Efail Isaf. Dyna lle gwelais gyffylog yn plymio tua'r tir brwynog i guddio. Llwyddodd Phil Bristow a minnau i godi gïach a chyffylog o'r un nant fach fynyddig uwchlaw Glofa'r Tŵr yn ystod y tywydd rhynllyd ym mis Chwefror. Roedd clychau iau yn hongian fel rhyw fananas lloerig ar y glaswellt ger glannau'r nant, ac yno hefyd roedd digon o bridd meddal i'r adar chwilota am fwydod. Er nad yw cudyllod cochion mor gyffredin â hynny, mi welais rhai yn hela uwchben Ffordd Osgoi Pentre'r Eglwys, Comin Llantrisant, a Glofa'r Tŵr.

Dyma oedd gan Lesley Jones i'w ddweud: "Ar ôl darllen Cylchlythyr y Cofnodwyr, roedd raid i mi roi pin ar bapur (mae'r rhwydwaith i lawr). Er bod cathod niferus Heol Taf, Glynrhedynog, wrthi'n brysur yn ysglyfaethu (gyda chymorth gwalch glas eithaf effro), mae niferoedd adar y to yn y gerddi heb ddisgyn ryw lawer. Mae'n arferol erbyn hyn i weld hyd at 20 o adar y to yn clwydo ac eistedd ar hyd ddellt yr ardd. (Dyna gyfle am lun gwych!) Byddant yn bwydo bob dydd o fwrdd adar fy nghymydog, Ray - sy'n sefyll yng nghysgod fy llwyn eurinllys i! Ryw fin nos heulog o brin ym mis Awst, a finnau wedi cyrraedd adref o ddiwrnod caled yn y swyddfa, mi gerddais allan i'r patio. Dyna ddychryn cefais i wrth weld y gwalch glas yn codi oddi tan y llwyn pig y crëyr lle'r oedd yn stelcian adar y to ar y bwrdd adar. Dyna'r gwalch yn codi yn swnllyd ac yn hedfan ar draws fy llwybr i gipio aderyn oddi ar y bwrdd. Erbyn i mi ddod dros y dychryn, roedd y gwalch glas yn hedfan tua'r rhandir agosaf, gyda'r aderyn y to yn hongian o'i draed. Wel dyna i chi brofiad - heb yr un cymydog yn dyst i'r hyn welais i! Mae sawl un wedi gweld y gwalch glas oddi ar hynny - yn cael llond ei fola, debyg iawn!

Dyma neges a gefais gan Mark Evans yn gynnar ym mid Tachwedd:
'Penderfynais fynd am dro yn y goedwig ddoe, o Fynydd Beili Glas i Fynydd Tynewydd. Roeddwn i am weld pa gawlach roedd y contractwyr ffermydd gwynt, a chael fy siomi ar yr ochr orau. O leiaf roeddent i'w gweld wedi osgoi prif ran y gors.

A minnau ar fy ffordd yno, craffais ar Gronfa'r Lluest Wen o Fryn Gelli, a gweld pedwar hwyaden ddanheddog bengoch, a hwyaden wyllt wrywaidd. Roeddwn i wrth fy modd yn gweld yr hwyaid danheddog, am y tro cyntaf y gaeaf hwn. Roedd fy mhleser yn llai o dipyn wrth weld y chwarel fechan, lle roeddwn i wedi cofnodi rhedyn persli. Bellach, mae hi wedi cael ei thirlunio a'i thirweddu yn llwyr, ac nid oes unrhyw lystyfiant ar ôl yno. A minnau'n troedio'n drwm draw tua Bryn Gelli, digwyddais godi pump o freision y cyrs o'r ffos yn ochr y ffordd. Gwyliais

hwy yn gwibio'n hamddenol braf ar draws y môr a disgyn yn syth i laswellt y gweunydd. Ymlaen â fi am ychydig a gweld dau yn rhagor. Ac yna mi glywais glochdar y cerrig, a'm socan eira gyntaf y gaeaf hwn. Cyfrifais y cigfrain fore heddiw, a dyna pryd y gwelais fy nghyffylog cyntaf yr hydref hwn. Ehedodd ef uwchben, ac ymlaen i mewn i'r blanhigfa gonwydd tu ôl i fi. Tua 107 oedd cyfanswm y cigfrain.

Ym mis Rhagfyr, fe welodd Kevin Oates a Ray Edwards dair bronwen y dŵr yn ymladd ar Afon Taf, a phedair hwyaden ddanheddog hefyd (un yn wrywaidd). Yn ogystal â hyn fe welodd Kevin fronwen y dŵr ar Nant Cae-dudwg ger Cilfynydd ar 15fed Rhagfyr. Ar Ionawr 2il fe welodd dair hwyaden ddanheddog (un yn wrywaidd) ger pont droed Marks & Spencer yn agos i Barc Ynysangharad ym Mhontypridd. Ac mi welais ryw weithgaredd tiriogaethol clasurol bronwen y dŵr ym mis Chwefror, y tro hwn ar gydlifiaf Afon Clun ac Afon Elái ym Mhont-y-clun. Roedd bronwen y dŵr gwrywaidd yn sefyll ar raean afon ger cymer Afon Clun, ac yn canu. Dyma ddau aderyn arall (pâr, o bosibl) yn gwibio i lawr Afon Clun ac ymosod ar yr aderyn cyntaf. Tasgodd hwnnw i ffwrdd drwy ddŵr yr afon, a dianc drwy wibio i lawr yr afon yn ôl tua Phont-y-clun. I bob golwg, cydlifiad y ddwy afon sy'n nodi ffin tiriogaethau'r ddwy fronwen y dŵr.

"Bu'r hydref hwn yn eithaf tawel ar y cyfan," meddai Tony Swann yn ei adroddiadau ar Gors Llanharan a Choed Brynna. Rhyw rygnu ymlaen o hyd mae tywydd gwael eleni. Gan i'r gwanwyn a'r haf fod mor llaith (a rhoi'r peth ar ei garedicaf) eleni, bu diffyg aeron o bob math, ac eithrio eiddew. Eirin bach surion (dim jin!), a chelyn, oedd y diffygion pennaf y gaeaf hwn. O ganlyniad, bu diffyg cochion-dan-aden yn y goedwig hefyd. Ond dyma’r cofnodion mwyaf diddorol fodd bynnag;'Ar 21ain Tachwedd, ehedodd haid o ryw 40 neu ragor o linosiaid pengoch lleiaf dros y goedwig, o'r gogledd i'r de, ond heb lanio o gwbl. 27ain Tachwedd, dau gyffylog yn yfed dŵr glaw o nant fechan newydd. Rwy'n tybio a chymryd i'r adar hyn hedfan yn ystod y noson flaenorol. 7fed Rhagfyr am 15. 00, tarfu ar ddau gyffylog o glwydfan ddydd, yn agos iawn i lwybr ceffyl heb fod mewn man gorffwys oriau dydd arferol. Y dybiaeth yw taw adar o Ewrop neu Asia oedd y ddau a welwyd. Efallai'u bod wedi hedfan i mewn y noson gynt, ac heb ymgartrefu ato. 'Mae'r gaeaf yn sicr o fod yn amser anodd i adar,' meddai Tony, 'a dyna pam rwy'n gyndyn iawn i darfu arnynt, dim ond er mwyn cael cofnodi'u presenoldeb. Bob tro i mi faglu ar draws giachod neu gyffylogod mewn glaswelltir gwlyb, byddwn i'n teimlo yn unig wrth darfu arnynt.

Rhoes adroddiad Dawn Thomas dipyn o syndod i ni: "Mae gennyf ryw 16 erw yng Nghwmaman. Mae gennyf lu o adar yno, gan gynnwys robinod cochion, piod, sgrechod y coed, cnocellau'r coed, tylluanod, cigfrain, gweilch, bwncathod, a chrëyrod. Un gaeaf ryw ddwy flynedd yn ôl, bu tri ohonom yn gwylio aderyn hollol anghyfarwydd am ychydig funudau. Aethom ati wedyn i wneud ychydig ymchwil, a darganfod taw robin Americanaidd ydoedd. Roeddem ni'n sylweddoli mor brin oedd yr aderyn hwn. Gyrrais e-bost at y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, ond heb gael ateb. Bydd ffesantod ar y tir yn ystod y gaeafau,

ond ni welais i'r un y gaeaf hwn.  Bu un yn bwyta o'm llaw y llynedd, ac rwy'n siŵr y daw un eleni.  Dyma'r adroddiad cyntaf am robin Americanaidd a ddaeth i law yn Rhondda Cynon Taf.  A welsoch chi robin Americanaidd? Os naddo, mae hi'n fersiwn fwy lliwgar o'n mwyalchen ni, ddim byd yn debyg i robin goch y cardiau Nadolig.  Ydych chi'n cofio fersiwn warthus Disney o 'Mary Poppins'? Roedd acen gocni Dick Van Dyke yn ddigon o ddolur i'r glust, ond wele Julie Andrews yn canu i robin Americanaidd yn lle i un o robiniaid traddodiadol Llundain.  Roedd stori am ddewines a chriw o ddynion glanhau simdde yn dawnsio yn ddigon anghredadwy, ond roedd y robin Americanaidd yn goron ar yr erchylltra.

Un o arwyddion y gwanwyn yw bod yr ehedydd yn dychwelyd i'n bryniau ni. Eleni fe gofnododd Paul Marshman fod yr ehedydd wedi dychwelyd i fryniau Penrhys.  Chwefror 4ydd oedd y dyddiad, sy'n fwy diweddar na'r llynedd.  Ond, o gofio mor oer oedd hi, nid oes syndod.  Gan fod y gwanwyn mor hwyr yn cyrraedd, mae'r adar mudol cynnar yn sicr o gyrraedd yn hwyr hefyd.  Gwelodd Tony Swann un siff-siaff yng Nghoed Brynna ar Fawrth 17eg, ond ni ddaeth heidiau o adar eraill yn gwneud synau 'siff-siaff' i ddilyn.  Ebrill 4ydd oedd hi ar Paul Marshman yn gweld ei dinwennod cyntaf, sydd eto yn gymharol hwyr yn y flwyddyn.  Yn ogystal â hyn fe nododd Paul fod y gwylanod penddu (sydd fel arfer yn ymadael â'r Rhondda yn Chwefror neu Fawrth i fynd i'w mannau bridio) wedi cadw'u niferoedd gaeaf i fyny tan fis Ebrill eleni.  A minnau yn ysgrifennu, rhaid bod ein hadar mudol haf yn dal yn Ne Ffrainc yn rhywle, ymhell tu hwnt i'r gwrthdrowynt rhynllyd fu'n nodweddu ein tywydd ym mis Mawrth.

**Mamaliaid**

Tua diwedd mis Hydref mi gefais adroddiad am garlwm gan un o ferched Llyfrgell y Beddau.  Roedd chwaer Angharad Morgan wedi gweld minc ger tafarn yr Old Bwl Inn, Ynys-y-Bwl, ym mis Hydref ac mae Angharad wedi trosglwyddo'r adroddiad drwy law Kevin Oates.  Fore trannoeth yr eira mawr ym mis Ionawr, mi welais olion traed minc neu ffwlbart (rhy anodd i ddweud y gwahaniaeth) ar draws fy ngardd ffrynt.

Yn ystod yr hydref, fe ymhelaethodd Wendy Jenner ar bwynt Ann Bennett yn rhifyn diwetha'r Cylchlythyr.  'Dyma bwynt bach sy'n codi o'ch Cylchlythyr. Rydym ni hefyd wedi sylwi mor aml mae pobl yn sôn am wiwerod llwyd yn cael eu lladd gan geir.  Daethom ni o hyd i dair ohonynt o fewn ychydig ddyddiau, ac un o'r rhain mewn lôn dawel lle nad oes ceir yn mynd.  I'm llygad i, creaduriaid oedd wedi syrthio o goed roedd y rhain.  Ar wahân i'r llygaid mawr chwyddedig, roedd y cyrff yn gyfan ac heb eu malurio gormod.  Oes rhywun wedi gwneud awtopsi ar un o'r gwiwerod hyn? Tybed a ydynt wedi pesgi ar ormod o gnau pys, a methu deall eu bod yn rhy drwm i rai o frigau'r coed?'

Methais ag ateb ymholiad Alex Brown, ac rwy'n dal i fethu gwneud.  Tybed a fedrwch chi? Dyma oedd gan Alex i'w ddweud: 'Un cwestiwn bach sydd gyda fi. Mae gennyf sied ar fy rhandir.  Ddydd Sadwrn, mi sylwais bentwr bach cymen o

'dail' yno, i gyd wedi'i grynhoi'n daclus. Sut byddai rhywun yn mynd ar y cyd i adnabod a nodi'r creadur fu'n gyfrifol? Rwy'n amau taw rhyw fath o famal bach yw hwn, ond hoffwn i wybod yn gywir beth ydyw. O yw hynny'n help, roedd y tameidiau baw i gyd yn 3-4 centimetr o ran hyd, a thua'r un trwch â phensil. "

Daeth cyfres o adroddiadau am ddraenogiaid ifanc wedi marw i law yn ystod yr hydref a'r gaeaf. Ymddengys fod tywydd gwael 2012 heb adael i lawer o ddraenogiaid ifanc i besgi, er bod mwy na digon o wlithod i'w cael. Efallai fod oerfel a glaw'r haf hwnnw wedi peri i'r draenogiaid ohirio'r tymor bridio, a bod dim digon o amser wedyn i fwyta digon i barhau drwy'r gaeafgwsg. Fodd bynnag, ymddengys fod oerfel diwedd y gaeaf wedi gwneud am y rheiny oedd wedi gorfod dihuno a bwydo.

**Gwyfynod**

Gwyfynod hardd iawn yw swrcodau, o liwiau cochlwyd a rhyngoch. Maent i'w gweld yn gaeafgysgu mewn adeiladau a thai allanol a seleri gan amlaf. Ym mis Rhagfyr, cofnododd Mark Evans a'i gyd-weithwyr fod swrcodau i'w cael mewn twnelau penodol yng Nghwm Cynon. Yn ôl adroddiad Mark, roedd niferoedd y gwyfynod hyn yn eithaf isel eleni. "Ar y tywydd gwael mae'r bai, mae arnaf ofn," meddai, "ac mae'r swrcodau yn dioddef yn yr un ffordd â'r rhan fwyaf o bryfed hedfan eraill yr hydref a'r gaeaf. " Yn ôl adroddiad diweddar gan Warchod Glöynnod Byw, mae niferoedd y gwyfynod gardd ar eu hisaf ers dechrau cadw cofnodion. Bellach, mae gwyfynod fel teigrod yr ardd, a'u lindysiaid mawr blewog, yn brin i'w rhyfeddu. Mae'r rhod wedi troi yn llwyr. Tan ryw ugain mlynedd yn ôl, roedd clêr yn fwrn o hyd yn ystod amser te. Byddai pawb yn gweiddi ac yn chwifio dwylo wrth i'r pryfed tŷ hedfan yn hamddenol uwchben y ford de yn aros am eu cyfle i ddisgyn yn dwt ar y brechdanau ciwcymbr, neu'n eistedd fel pla o smotiau ar ffrâm wen drws y gegin. Nid felly y mae hi bellach. I ble, fell, mae'r holl bryfed tŷ wedi mynd? Tybed a yw niferoedd yr adar gardd yn dirywio yn sgîl colli'r holl glêr erchyll hyn? Rhaid bod hyn yn rhan o'r rheswm - a'r un rheswm, siŵr o fod, am golli cymaint o'n gwyfynod.

**Ffyngau**

Mae Mark Evans wedi gyrru llun anhygoel o ffwng las indigo unigryw ataf. Pulcherricum caeruleum yw'r enw, neu fflŵr cobalt. Ar ôl gweld y lluniau, cytunaf yn llwyr fod y ffwng hwn yn arbennig o hardd. Bu Mark yn brysur wrthi yn chwilio am y Pulcherricum caeruleum mewn cynifer o sgwariau un cilometr ag yr oedd modd, os oedd y cynefin yn addas a bod rhywogaethau priodol i'w cael yno. Hyd yn hyn, rwyf wedi'i gofnodi ar 23 o sgwariau, gan gynnwys tair sgwâr yn VC42. Fe'i gwelais ar , chwech o wahanol organebau lletyol, helygen lwyd, onnen, a miaren gan amlaf. *Yn fy mhrofiad i, mae tortsh yn anhepgor wrth chwilio amdano. Mae'r ffwng hwn yn dueddol o dyfu mewn mannau sy'n llawn cysgodion. Rhaid chwilio ar ochrau is bonau, coesau, canghennau, a brigau. Ar ben hynny, mae'i liw yn toddi i'r tywyllwch. Os yw'r cysgodion yn ddwfn, nid yw indigo yn hawdd ei weld heb droi golau arno. Rhoes Mark restr o'r mannau lle gwelodd ef fflŵr y cobalt. "Roedd Mervyn Howells wedi'i adnabod a'i nodi i mi*

*mewn gardd yn Nhrealaw ychydig flynyddoedd yn ôl, ar goesau yswyd marw. Nodais y ffwng eto mewn gardd yng Nghrucywel, ar hen ffens blethwaith cyll, yr un flwyddyn, ond ddim oddi ar hynny ... Yng Nghwm Cynon, fe gefais hyd iddo ar hen gangen onnen ar lawr ger yr hen dramffordd rhwng Trecynon a Phen-y-waun. Roedd un arall ar gangen helygen lwyd farw oedd heb ddisgyn eto, mewn coedwig wlyb ym Maes y ffynnon, Aberdâr. Gwelais rai ar frigau helygen lwyd marw eto, lle tynnais i'r llun uchod yn y Werfa, Abernant. Nid yw cofnodion Morgannwg y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Genedlaethol yn dangos dim, hyd yn oed fy nghofnod i ar gyfer Trealaw. Ond ymddangos yn brin y mae, am fod pobl yn ei anwybyddu neu'i fethu ac felly ddim yn ei gofnodi ddigon.*

Dyma adroddiad gan Mark ym mis Tachwedd: "Euthum i ben isaf Cwm Nant-y-Gwyddel i chwilio am Pulcherricium caeruleum. Yn y diwedd, cefais hyd iddo ar ganghennau onnen A minnau yno, gwelais dyfiant yn debyg i ddafaden ar onnen farw. Llwyddodd Mervyn ei adnabod a'i nodi fel Hypoxylon howeianum. Roedd yno hefyd llaw farw ac Exidia recisa, ond coron y cyfan i mi oedd cwpan yr ellyll gwyrdd (Chlorociboria aeruginascens yn tyfu allan o fonau ynn marw oedd heb gwympo eto. Yn ôl Roger Phillips, ar dderw y mae i'w gael fel arfer a rheol, ac roedd hwn yn bendant yn tyfu ar ynn. Gyrrodd Mark lun ataf, a rhaid i mi ddweud fod cwpan yr ellyll gwyrdd yn ffwng ysblennydd sydd yn wir yn teilyngu'i enw.

**Amffibiaid**

Ras gyfartal oedd hi o ran gweld y grifft cyntaf eleni. Dau safle yn y Rhondda oedd piau hi yn 2013. Roedd grifft Paul Marshman ar lwybr trol a chert yng Nghoed Cwm Bodwenarth, ar Ionawr 30ain. Ar yr un diwrnod yn union, adroddodd Dave Kerr fod tri lwmp o rifft yn y pwll dŵr mawr y bore hwnnw. Diolch byth, erbyn meddwl, i ni gael yr holl eira a glaw wedyn. Ychydig iawn o ddŵr oedd yn y pwll cyn hynny, er i'r grifft ymddangos wythnos yn ddiweddarach na'r llynedd. Yn llawer diweddarach ym mis Chwefror a minnau yn uchel ar y llechwedd uwchlaw Glofa'r Tŵr, mi welais i grëyr yn bwyta ei wala mewn pwll dŵr ucheldirol bach. Tybed beth oedd y wledd? Wrth i mi gyrraedd mi welais fod y pwll bron yn gorlifo â grifft wedi rhewi. Rhaid bod y crëyr wrthi'n llowcio'i wledd oer. Pwll dŵr iseldir eithaf cysgodol sydd gyda fi, ond roedd ymhell ar ei hôl cyn cael ei rifft cyntaf. Fore mis Mawrth 7fed oedd hi, wythnosau ar ôl i frogaod gwydn y Rhondda dorri'r ia yn eu pyllau dŵr i fyny ar y mynyddoedd uchel. Gwylais ddau froga yn tasgu drwy ddyfroedd bas fy mhwll cysgodol bach i yn yr heulwen, yn dodwy lympiau mawr o rifft.

**Chwilod**

Bu llawer o drafod am effeithiau'r buchod coch cwta harlecwin yn llowcio'r buchod coch cwta brodorol ac yn ymledu yn ddi-baid ym mhob rhan o Brydain. A yw'r rhywogaeth newydd fawr hon (a welaf yn fy ngardd yn eithaf aml) yn difa ein buchod coch cwta brodorol? Nid yw hyn wedi'i ganfod yn glir eto. Os ydych chi wëir eisiau gweld buchod coch cwta harlecwin, ewch i'r pafiliwn criced ym Mharc

Coffa Rhyfel Ynysangharad. Am ryw reswm, maent wrth eu bodd yn gaeafgysgu yn yr adeilad hwnnw. Weithiau, byddant yn llenwi silffoedd y ffenestri. Dyma adroddiad gan Mark Evans: "Byddwch chi'n cofio f'adroddiad am y fuwch goch gota harlecwin du gyda smotiau siâp coma. Rwyf newydd ddod ar draws y wefan hon: http://www. eakringbirds. com/eakringbirds3/insectinfocuskidneyspotladybird. htm. Gan i'r fuwch goch gota a welais i yn sgleiniog iawn, ac ar helygen lwyd hefyd, tybed ai buwch fach gota smotyn aren oed dyr un a welais i. Nid oedd camera gennyf ar y pryd. Os na chaf hyd i un arall yno, mae'n bosibl na chaf byth wybod. Fel mae'n digwydd, mae gennyf i helygen lwyd yn tyfu yn fy ngardd. Gan i mi gael hyd i fuchod bach cwta smotyn aren ar honno, rwy'n amau fod Mark yn gywir. Dyma brawf nad buchod coch cwta harlecwin yw pob buwch goch gota anghyffredin a wêl rhywun. (Golwg eithaf amrywiol sydd gan yr harlecwin fodd bynnag.)

**Cynffonau sbonc**
Anfonodd Mark Evans nifer o luniau agos wych ataf hefyd. Roeddent yn dangos y Dicyrtomina ornata, sef y cynffon sbonc. Creadur di-asgwrn cefn neu infertebrat bach iawn yw hwn, a chafodd rhai eu denu gan smotyn o ddŵr siwgr a adawodd Mark i frychan y sbriws oedd yn dal i hedfan yn y gaeaf. Tynnodd Mark luniau o'r cynffonau sbonc, a chofnodi patrwm hynod eu cyrff. "Dim ond dau gynffon sbonc crwn gyda'r fath batrymau sydd i'w cael yn y Deyrnas Unedig. Dicyrtomina ornata yw'r llall. Lliwiau'r antenau sy'n dangos p'un yw p'un. Gyda Dicyrtomina arta, mae gwreiddyn yr antena o liw golau iawn, ond yn mynd yn fwy tywyll tua'r pig. Ond gyda Dicyrtomina saundersi, ar y llaw atal, mae lliw'r antena yn newid yn sydyn, tua hanner ffordd i fyny. Un gwahaniaeth bach arall sydd, sef man bach pigment du ar ran ôl yr abdomen. Smotyn bach tywyll syml yw hwn yn y Dicyrtomina ornata, ond o siâp erial teledu yn y Dicyrtomina saundersi. ' Dyma'r tro cyntaf i ni adnabod a nodi cynffon sbonc. Gyda hyn, dyna agor maes newydd ar gyfer ymchwil Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.

**Cacwn a Gwenyn y Gog**

Gyrrodd Sinéad Lynch, Swyddog Cadwraeth yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn, gofnod ofnadwy o ddiddorol o wenynen y gog wrywaidd, Bombus rupestris. Cawsai'r wenynen ei gweld ym Mryncethin, ger ein ffin â Phen-y-bont ar Ogwr yn Llanharan. *Mae Bombus rupestris ymhlith y gwenyn sydd wedi dirywio'n ddybryd ym mhob man. Cafodd gwenynen y gog ei henw o'i harfer o barasitio nythod cacwn cyffredin. Fel pob un o'r cacwn hynod ddiddorol sy'n gwneud hyn, rhaid i wenynen y gog dynwared golwg ei horganebau lletyol. Mae Bombus rupestris yn dynwared Bombus lapidarius, cacynen fawr gynffon coch sydd i'w gweld mewn sawl gardd gefn. Bydd gwenyn y gog yn ymddangos yn fwy diweddar yn yr haf na'r cacwn cyffredin. Bydd nythod y cacwn eisoes wedi'u hadeiladu ac yn barod. Pan ddeuwch i arfer, mae gwenyn y gog yn ddigon hawdd eu hadnabod. I ddechrau, ni fyddant hanner mor chwim ac egnïol â chacwn. Ni fydd y rhain yn chwilio a chwalu ym mhob man, yn si a siffrwd i gyd. Ar ganol yr haf, gwenyn y gog araf, hamddenol fydd y rhan fwyaf o wenyn ar*

*lwyn y gynffon las gan amlaf. Yn ail, ni fydd eu thoracs hanner mor flewog â'r gacynen. Fel arfer a rheol, maent yn eithaf moel lle mae'r gacynen yn flew i gyd. Felly dyna i chi agwedd ddiddorol iawn ar y gwenyn yn eich gardd gefn. Gwyddoch nawr beth yw'r gwahaniaeth rhwng y gacynen, a gwenynen y gog sy'n ei dynwared. Tybed a fedrwch chi gael hyd i Bombus rupestris?*

**Rhedyn, Corynnod Ogof, ac Ystlumod**

Ym mis Tachwedd, mi gefais e-bost gan Mark Evans, oedd wedi ymweld ag ogof yng Nghwm Cynon. Mae'r safle yn gorwedd mewn lleoliad llaith iawn. Bydd y fflora ar hyd arwynebau carreg fel hyn wastad yn ddiddorol, ac yn aml iawn yn addo rhywbeth cyffrous. Yn ogystal â'r planhigion arferol, tafod yr hydd, rhedyn du, gwallt y forwyn, marchredyn llydan, a marchredyn cyffredin, roedd yno wrychredyn meddal, a gwrychredyn caled, yn ogystal â chlust yr arth. Dechreuais ymchwilio i hyn, ond dyna fi bron ar unwaith yn dod ar draws y ffordd i mewn i fynedfa ceuffordd. …… Gwelais ei bod yn mynd gryn bellter i mewn, a phenderfynais archwilio'r fynedfa ceuffordd am swrcodau. Euthum yn ôl at y car i nôl tortsh. Roedd gofyn am blygu i lawr er mwyn dod i mewn, ond codai'r to yn raddol ac roedd digon o le i fynd ymlaen heb blygu gymaint. Archwiliais i waliau a'r nenfwd, ond nid oedd gwyfynod i'w gweld. Serch hynny fe roedd digonedd o'r corynnod ogof ysblennydd Meta menardi. Roeddent hwy a'u codennau wy mawr i'w gweld yn hongian o'r nenfwd. Ychydig lathenni i mewn i'r geuffordd, a dyna'r to yn codi ddigon i mi allu sefyll. Trois i'r tortsh i bob ochr, ond eto nid oedd gwyfynod i'w gweld. Edrychais i fyny, a gweld un ystlum pedol lleiaf yn hongian o'r to, Felly dyna ddiwedd ar f'antur yn y twnnel hwnnw, ac allan â fi heb oedi.

**Slefnod Llyn Parc y Darren yn ailymddangos**

Bu sôn mewn rhifyn o'r Cylchlythyr dro'n ôl am y slefnen fach isdrofannol Craspedacusta sowerbii yn Llyn Parc y Darren. Efallai fod hyn i'w weld yn hollol wallgof. Er hynny y mae gan Craspedacusta sowerbii enw am ymddangos (a diflannu eto) o gyrff dŵr hollol annisgwyl - megis Llyn Parc y Darren! Cawsom rybudd gan Vic Doyle yn ddiweddar fod y slefnen wedi brigo i'r wyneb eto yn y Llyn (neu wedi dychwelyd, o bosibl): "Roedd raid i mi roi gwybod i chi fod Phil Rumble, Glynrhedynog, wedi darganfod slefnod dŵr croyw yn Llyn Parc y Darren yno. Mae hyn yn werth ymchwilio iddo, yn fy marn i. Beth ddylem ni'i wneud? Mae Phil a fi yn aelodau o glwb pysgota'r Llyn. " Cadw llygad ar y Llyn yw'r peth pwysicaf, Vic. Os cofnodwch chi effaith y tywydd a'r tymhorau ar y creadur hwn, mae'n bosibl y cawn ddysgu rhywbeth am yr ymwelydd annisgwyl hwn â'r Parc. Diolch eto am eich holl adroddiadau a chofnodion. Gobeithio y caf faddeuant os collais rai. Cofiwch roi gwybod i ni os byddwch yn symud tŷ, neu'n newid cyfeiriadau e-bost. A rhowch wybod os yw'n well gennych gael y Cylchlythyr hwn ar bapur, neu yn Saesneg. Richard Wistow, Ecolegydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf Llwyn Castan Heol y Llyfrgell Pontypridd, CF37 2YARichard. j. wistow@rctcbc.gov.uk